# Y Gwasanaeth ABC/ABC Service

Mawrth 20fed / March 20th, 2020

Annwyl Rieni,

Parthed: COVID-19

Er gwaethaf ein ymdrechion i gadw'r Canolfannau ABC ar agor cyn hirad â phosib yr ydym bellach yn gorfod dilyn cyfarwyddyd i'w cau.

Gan fod ambell riant wedi gofyn am gefnogaeth addysgol yn y cartref, hoffwn gynnig ambell syniad i chi ar y dudalen nesaf. Bydd y staff hefyd yn cysylltu yn rheolaidd trwy'r Class Dojo.

- Bydd dilyn eich rwtin/trefn gartref yn hynod bwysig i'r plant yn ystod y cyfnod hwn er mwyn eu helpu i ddeall beth sy'n mynd ymlaen.
- Anogir cyfnodau chwarae hefo eich plentyn yn ddyddiol gan annog eich plentyn i arwain a chithau i'w ddilyn (dilyn strategaethau Ga i ymuno â chi?)
- Gan eich bod wedi cael cyfarfod CDU ac yn gallu cael mynediad iddo ar lein awgrymir eich bod yn edrych arno a gweld lle gallwch helpu'r ABC i ddatblygu sgiliau eich plentyn (targedau a osodwyd).
- Mae adnoddau/syniadau buddiol ar gael i Rieni ac Eraill ar y wefan https://acyach.cymru (cliciwch wedyn ar Cymraeg/Rhieni/Gwasanaethau/Blynyddoedd Cynnar/Adnoddau i Leoliadau Blynyddoedd Cynnar).
- Chwilio am weithgareddau blynyddoedd cynnar ar lein

Dymuniadau gorau i chi gyd yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Dear Parents,

Re: COVID-19

Despite our best attempts to keep the ABC Centre's open during this difficult time we are now having to follow instructions to close.

As a few Parents have asked for educational support at home we would like to offer some ideas for you on the next page. ABC staff will also keep contact with you via Class Dojo.

- Following your home routine will be of utmost importance to your child during this time to help them understand what is going on.
- Time for play with your child using May I Join You approaches will be paramount in their continued developement.
- AS IDP meetings have been held and you are able to access your child's IDP online we would advice that you look at it to see where you can support your child to develop his/her skills (the targets set).
- There are resources/ideas for Parents and Others online https://adyach.cymru ( click on the following - English/Parents/Services/Early Years/Resources for Early Years Settings)
- Find early years activites online

Best wishes to you and your family during this difficult time

Yn gywir/ Regards,

*Llinos Watkins* Uwch Athrawes Gwasanaeth ABC / Senior Teacher ABC Service

| Ychydig o syniadau o weithgareddau yn y cartref / Some ideas of activities for the home setting | | | |
|---|---|---|---|
| **Chwarae byd bach/small world play** | **Chwarae rol/role play** | **Adeiladu/building** | **Motor man /Fine motor** |
| Pethau fel ceir bach, tren, ty bach, anifeiliaid fferm, deinosoriaid ayyb<br><br>Things like small cars, Train, doll's house, Farm animals, dinosaurs etc | Gwisgo I fyny, bwydo tedi, chwarae siop ayyb<br><br>Dressing up<br>Bwydo tedi/feeding teddy/doll etc | Blociau/blocks<br>Lego<br>Unrhyw offer adeiladu<br>Any building toys | Jisgsos/jigsaws<br>Clay/clay/playdoh<br>Sortio siapau/shape sorters |
| **Chwarae aml synhwyrol/ multi sensory play** | **Llyfrau/books** | **TG/IT** | **Marcio/Mark making** |
| Tywod, dwr, bybls<br>Sesiynau coginio<br><br>Sand, water activities<br>Bubbles<br>Cooking sessions | Edrych ar lyfr lluniau/catalog a gwrando ar stori<br><br>Looking at a picture story books/catalogue and listening to a story<br>Canu hwiangerddi/singing nursery songs | Chwarae ar yr iPad hefo oedolyn/play on iPad with an adult<br><br>Gwylio hoff raglenni addysgol plant hefo oedolyn<br>Watching favourite tv educational programmes with an adult | Sgriblo a marcio ar bapur – creonau a pinau ffelt<br><br>Scribble and mark makiing – crayons and felt tip pens |
| **Gwaith celf/Art and crafts** | **Corfforol mawr/gross motor** | **Gemau / games** | **Mwynhau/Enjoy!!!!** |
| Peintio/Painting<br>Gludo/using glue sticks | Gwrando ar gerddoriaeth/CD a dawnsio ayyb<br><br>Listen to music/CD-dancing etc | Gemau ticlo/tickle games,<br>Gemau pi po /peek a boo games | **Mae'n bwysig bod eich plentyn yn chwarae gyda'i hoff deganau fel eich bod yn gallu ymuno yn ei chwarae ac yn hyrwyddo rhyngweithio a chymdeithasu.**<br>**It is important that you follow your child's lead and allow him/her to play with their favourite toys so that you can promote interaction and social skills.** |